30ain o Fedi 2020

Annwyl Gynghorydd,

Gwysir chwi i gyfarfod o Gyngor Tref Frenhinol Caernarfon i'w gynnal Nos Fawrth, 6ed o Hydref 2020 am 6.00 o'r gloch yr hwyr.

Oherwydd Covid-19 bydd y cyfarfod yn cymryd lle o'ch cartref, ar lein drwy ddefnyddio system "Zoom".

Bydd gwahoddiad ffurfiol i'r sustem trwy "Zoom" yn cael ei anfon atoch cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Yn gywir,

Sion Wyn Evans
Clerc y Dref

Rhaglen

1.Ymddiheuriadau

2.Cyhoeddiadau'r Maer

3.Datgan Buddiant Personol

4.Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

5.Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol (yng nghefn y rhaglen):-

(i) Cyngor Llawn, 1af o Fedi 2020 (**Atodiad Gwyrdd**).
(ii) Pwyllgor Adloniant, 8fed o Fedi 2020 (**Atodiad Pink**).
(iii) Pwyllgor Gwaith, 22ain o Fedi 2020 (**Atodiad Glas) (Eitem Eithriedig).**
(iv) Pwyllgor Personél, 28ain o Fedi 2020 (**Atodiad Coch**) **(Eitem Eithriedig).**

6.Cyfrifon

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu.

7. Cyfrifon Incwm a gwariant a chysoni cyfrifon

8. Clwb Cymunedol Caernarfon

Cyflwyno adroddiad ar Glwb Cymunedol Caernarfon gan yr Arweinydd Gwaith Cymunedol Ieuenctid.

9. Y Drefn Gwyno

Cyflwyno adroddiad y Clerc yn amlinellu diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog a'r Drefn Gwyno, yn dilyn derbyn arweiniad gan y Swyddog Monitro (Copi ynghlwm).

10. Rheolau Sefydlog

Cyflwyno fersiwn ddiwygiedig o'r Rheolau Sefydlog (Copi ynghlwm).

11. Gwersylla Anghyfreithlon

Trafodwyd Gwersylla Anhgyfreithlon mewn Rhybudd o Gynnig yn y cyfarfod diwethaf o'r Cyngor Llawn ar y 1af o Fedi.

Cyflwyno ymateb Cyngor Gwynedd, o ran y llythyr anfonwyd atynt ar y pwnc, yn dilyn y trafodaethau hyn. (Copi ynghlwm).

12. Cysgodfannau Bysus

Cyflwyno:

(a) Awdit ar Gysgodfannau Bysus a gynhaliwyd yn ddiweddar (Copi ynghlwm).
(b) O ran gwaith atgyweirio, cyflwyno argymelliad y dylid blaenoriaethu'r cysgodfannau ger Asda, Morrisons a Tesco.

13. Adroddiad Blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2021/22

Cyflwyno gwybodaeth fod Adroddiad Blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2021/22 wedi ei gyhoeddi, a gofynnir am sylwadau erbyn y 23ain o Dachwedd 2020 (copi ynghlwm).

14. Ymddiriedolaeth yr Harbwr

Cyflwyno gohebiaeth gan Ymddiriedolaeth yr Harbwr, a gofynnir am ganiatâd i drafod y cynnwys yn y Pwyllgor Gwaith (copi ynghlwm).

15. Rheilffordd Afonwen i Fangor

Cyflwyno gohebiaeth gan Trawslink Cymru, yn gwahodd aelodau o'r Cyngor i gyfarfod "zoom" ar y 29ain o Hydref. (copi ynghlwm).

16. Datganiad ysgrifenedig y Gweinidogion Cam 2 y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth

Cyflwyno gwybodaeth fod y ddatganiad ysgrifenedig gan yr Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar gam 2 y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth ar gael yn:

https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cam-dau-cynllun-gweithredur-rhaglen-amrywiaeth-mewn-democratiaeth

17. Rhybudd o Gynnig

Cyflwyno'r Rhybudd o Gynnig canlynol gan y Cynghorydd Ann Hopcyn:

"Mae Cyngor Tref Caernarfon yn cefnogi safiad Cyngor Tref Nefyn yn erbyn amlhad tai gwyliau yn eu hardal."

18. Meicrodonau

Nodi fod Cwrw Da Cyf wedi derbyn £160 o'r Gronfa Argyfwng er mwyn i staff y Gwasanaeth Iechyd eu defnyddio yn ystod yr Argyfwng Covid-19. Erbyn hyn mae 2 feicrodon wedi eu dychwelyd i'r Cyngor, a gofynnir am farn yr aelodau o ran lle (neu i bwy) y dylid rhoi'r meicrodonau.

19. Cwestiynau